Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Dangosyddion Perfformiad Iechyd yng Nghymru
## Papur briffio

Awst 2021



ymchwil.senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Senedd Cymru**
**Tŷ Hywel**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6515**
E-bost: **Paul.Worthington@senedd.cymru**
Twitter: **@SeneddYmchwil**
Blog: **SeneddYmchwil.blog**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd Cymru 2021**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Dangosyddion Perfformiad Iechyd yng Nghymru
## Papur briffio

Awst 2021

**Awduron:**
Rebekah James a Paul Worthington

**Trosolwg o'r papur:**
Mae'r papur briffio hwn yn nodi'r targedau a lle y gellir dod o hyd i ystadegau ar gyfer y prif ddangosyddion perfformiad iechyd yng Nghymru.

# Cynnwys

**1. Cyflwyniad..................................................................................1**

**2. Amser a dreuliwyd mewn adrannau Damweiniau ac Achosion Brys ................................................................................ 2**

**3. Amseroedd aros rhwng atgyfeirio a thriniaeth........................ 4**

**4. Amseroedd aros gwasanaethau diagnostig a therapi ........... 5**

**5. Amseroedd amser canser ........................................................... 6**

**6. Amseroedd ymateb ambiwlansys ............................................... 8**

**7. Oedi Wrth Drosglwyddo Gofal..................................................... 9**

# 1. Cyflwyniad

Mae'r dangosyddion perfformiad a ddefnyddir i fesur y modd y darperir gwasanaethau iechyd yng Nghymru, megis amseroedd aros am driniaeth, yn mynd i newid.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu i'r **Fframwaith Canlyniadau Integredig Sengl (SIOF)** ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn disodli'r fframwaith presennol o ddangosyddion a mesurau perfformiad.

Ymrwymiad o **Cymru Iachach**, yw'r newid, sef cynllun hirdymor Llywodraeth Cymru ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a'i fwriad yw annog mwy o integreiddio rhwng GIG Cymru a'r gwasanaethau cymdeithasol. Ei nod hefyd yw canolbwyntio mwy ar ganlyniadau a'r effaith y mae'r gwasanaethau hynny'n ei chael ar iechyd a llesiant pobl, yn hytrach na dangosyddion sy'n mesur prosesau darparu gwasanaethau.

Yn y flwyddyn bontio hon (2021-22), y bwriad yw parhau â'r targedau a nodir yn **Fframwaith Cyflawni presennol GIG Cymru 2020-2021**. Mae **Fframwaith Cynllunio Blynyddol GIG Cymru 2021 - 2022** yn datgan y bydd y fframwaith cyflawni yn cael ei ailddatblygu yn ystod 2021-22 i greu cyfres o fesurau canlyniadau, yn adlewyrchu'r gwaith presennol ar y Fframwaith Canlyniadau Integredig Sengl.

# 2. Yr amser a dreulir mewn adrannau Damweiniau ac Achosion Brys

**Y targedau'n ymwneud ag amser a dreulir mewn adrannau Damweiniau ac Achosion Brys (A&E) yw:**

- 95 y cant o gleifion i dreulio llai na 4 awr ym mhob cyfleuster gofal brys difrifol a mân anafiadau (h.y. A&E) o pan maent yn cyrraedd nes y cânt eu derbyn, eu trosglwyddo neu eu rhyddhau; a
- dim claf i dreulio 12 awr neu fwy mewn cyfleuster gofal brys difrifol a mân anafiadau mewn ysbyty o pan maent yn cyrraedd nes y cânt eu derbyn, eu trosglwyddo neu eu rhyddhau.

- Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi **adroddiadau perfformiad a gweithgaredd misol** sy'n crynhoi data GIG Cymru. Maent yn cynnwys y wybodaeth fisol ddiweddaraf sydd ar gael ynghyd â chrynodeb o dueddiadau hirdymor. Mae gwybodaeth am yr amser a dreulir mewn adrannau damweiniau ac achosion brys wedi'i chynnwys yn yr adroddiadau.
- Mae'r data hyn hefyd ar gael yn y **dangosfwrdd o grynodeb perfformiad a gweithgaredd y GIG**. Offeryn ar-lein yw hwn sy'n darparu gwybodaeth ychwanegol am weithgaredd lle gall defnyddwyr ryngweithio â'r data a'u harchwilio.
- Caiff data manylach ar yr amser a dreulir yn aros yn adrannau damweiniau ac achosion brys GIG Cymru eu cyhoeddi'n fisol ar wefan **StatsCymru**. Mae ffigurau ar gael sy'n dangos perfformiad yn erbyn targedau amseroedd aros 4 a 12 awr, wedi'u dadansoddi yn ôl bwrdd iechyd ac ysbyty.
- Mae rhagor o wybodaeth gefndir (gan gynnwys categoreiddio cyfleusterau gofal brys yng Nghymru) ar gael yng nghyhoeddiad Llywodraeth Cymru: **Adroddiad Ansawdd ar Yr Amser a Dreulir mewn Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys**

## Mesurau Perfformiad newydd dros dro ar gyfer Damweiniau ac Achosion Brys

- Ym mis Tachwedd 2020, **cyhoeddodd** Llywodraeth Cymru set newydd o 'fesurau arbrofol' ar gyfer adrannau achosion brys. Datblygwyd y mesurau ar y cyd â chlinigwyr a'r Coleg Brenhinol Meddygaeth Frys. Maent yn cael eu cyhoeddi ochr yn ochr â'r wybodaeth bresennol am berfformiad ac maent yn dal wrthi'n cael eu gwerthuso. Y tri mesur arbrofol cychwynnol yw:
  - **Amser i frysbennu**: Amser cyrraedd tan yr amser brysbennu, dyma lle y pennir blaenoriaeth y claf ar gyfer triniaeth gan ddefnyddio sgôr brysbennu;
  - **Amser i'r clinigwr**: Amser cyrraedd tan yr amser gweld clinigwr am driniaeth. Gallai hyn fod yn feddyg, nyrs neu weithiwr gofal iechyd proffesiynol arall: a
  - **Canlyniad yr ymweliad**: Mae hyn yn canolbwyntio ar ganlyniad ymweliad y claf, megis dim apwyntiadau dilynol, derbyn neu driniaeth mewn lleoliad arall.
- Mae **adroddiadau yn erbyn y mesurau newydd** wedi'u cyhoeddi gan yr **Uned Gomisiynu Cydweithredol Genedlaethol** ers mis Tachwedd 2020.

# 3. Amseroedd aros o Atgyfeirio i Driniaeth

**Amser Atgyfeirio i Driniaeth** yw'r cyfnod o amser o pan gaiff claff ei atgyfeirio gan feddyg teulu neu ymarferydd meddygol arall i'r ysbyty i gael triniaeth yn GIG Cymru. Mae llwybr yr Amser Atgyfeirio i Driniaeth yn cwmpasu'r amser aros rhwng yr atgyfeiriad a'r ysbyty i gael triniaeth yn GIG Cymru ac mae'n cynnwys yr amser a dreulir yn aros am unrhyw apwyntiadau ysbyty, profion, sganiau neu weithdrefnau eraill y gallai fod eu hangen cyn triniaeth.

**Y targedau sy'n ymwneud ag amseroedd Atgyfeirio i Driniaeth yw:**

- 95 y cant o gleifion yn aros llai na 26 wythnos rhwng atgyfeiriad a thriniaeth; a
- dim cleifion yn aros mwy na 36 wythnos am driniaeth.

- Mae **adroddiadau perfformiad a gweithgaredd misol** Llywodraeth Cymru ar GIG Cymru yn cynnwys gwybodaeth am amseroedd rhwng atgyfeirio a thriniaeth. Mae'r data hyn hefyd ar gael yn y **dangosfwrdd o grynodeb perfformiad a gweithgaredd y GIG**.
- Mae data misol manylach ar amseroedd aros rhwng atgyfeirio a thriniaeth, wedi'u dadansoddi yn ôl bwrdd iechyd ac arbenigedd ar gael ar y wefan **StatsCymru**.
- Mae rhagor o wybodaeth gefndirol hefyd ar gael yng nghyhoeddiad Llywodraeth Cymru: **Amseroedd Rhwng Atgyfeirio a Thriniaeth GIG Cymru: Adroddiad Ansawdd**.

# 4. Amseroedd aros gwasanaeth diagnostig a therapi

**Y targedau amseroedd aros ar gyfer mynediad at wasanaethau diagnostig a therapi (safonau gweithredol ar gyfer amseroedd aros uchaf) yw:**

- yr amser aros uchaf am fynediad at brofion diagnostig penodedig yw 8 wythnos; a
- yr amser aros uchaf am fynediad at wasanaethau therapi penodedig yw 14 wythnos.

- Mae **adroddiadau perfformiad a gweithgaredd misol** Llywodraeth Cymru ar GIG Cymru yn cynnwys gwybodaeth am amseroedd ar gyfer gwasanaethau diagnostig a therapi. Mae'r data hyn hefyd ar gael yn y **dangosfwrdd o grynodeb perfformiad a gweithgaredd y GIG**.
- Mae data misol manylach ar nifer y bobl sy'n aros ac amseroedd aros, fesul bwrdd iechyd ac ar gyfer gwasanaethau diagnostig a therapi unigol, ar gael ar wefan **StasCymru**.
- Mae rhagor o wybodaeth gefndirol hefyd ar gael yng nghyhoeddiad Llywodraeth Cymru: **Adroddiad Ansawdd Amseroedd Aros Gwasanaethau Diagnostig a Therapi GIG Cymru**. Mae hwn yn nodi pa wasanaethau diagnostig a therapi sy'n cael eu cynnwys yn yr ystadegau amseroedd aros.

# 5. Amseroedd aros canser

**Y targed sy'n ymwneud â chanser yw:**

Dylai cleifion ddechrau triniaeth ddiffiniol gyntaf o fewn 62 diwrnod ar ôl y pwynt o amheuaeth o ganser.

Y **mesur perfformiad cychwynnol** tan fis Mawrth 2022 fydd 75 y cant o gleifion i ddechrau triniaeth o fewn y 62 diwrnod, a dywedodd Llywodraeth Cymru yn 2020 y bydd y mesur perfformiad yn cael ei ddiwygio i fyny mewn blynyddoedd dilynol.

Ym mis Tachwedd 2018, **cyhoeddodd** Llywodraeth Cymru y byddai un llwybr canser newydd yn cael ei gyflwyno ledled Cymru.  Byddai hyn yn disodli'r llwybrau brys lle ceir amheuaeth o ganser a'r rhai nad ydynt yn rhai brys lle ceir amheuaeth o ganser.

Y targedau blaenorol yn ymwneud ag amseroedd aros canser, **hyd at fis Chwefror 2021** oedd:

- bydd o leiaf 95 y cant o gleifion sydd newydd gael diagnosis o ganser, drwy'r llwybr brys lle ceir amheuaeth o ganser, yn dechrau triniaeth ddiffiniol o fewn 62 diwrnod i gael eu hatgyfeirio. Mae hyn ar gyfer cleifion sy'n cael eu hatgyfeirio o ofal sylfaenol lle ceir amheuaeth o ganser, sy'n bodloni meini prawf penodol ac a dderbynnir fel amheuaeth o ganser gan arbenigwyr sy'n benodol i safle mewn gofal eilaidd; a
- bydd o leiaf 98 y cant o gleifion sydd newydd gael diagnosis o ganser, nid drwy'r llwybr brys lle ceir amheuaeth o ganser, yn dechrau triniaeth ddiffiniol o fewn 31 diwrnod i'r amser y mae'r claf yn derbyn ei gynllun triniaeth. Mae hyn ar gyfer cleifion sydd wedi cael diagnosis lle ceir amheuaeth o ganser drwy lwybrau eraill, er enghraifft wrth gyflwyno gyda chyflwr clinigol arall, a chyfeirio ymlaen at wasanaethau canser arbenigol. **Byddai hyn yn cynnwys** unrhyw glaf na chafodd ei atgyfeirio gan ei feddyg teulu fel llwybr brys lle ceir amheuaeth o ganser, ond a gafodd ei asesu fel llwybr brys amheuaeth o ganser gan yr arbenigwr ar ôl dadansoddi yn dilyn atgyfeiriad meddyg teulu.

Dechreuodd Cymru adrodd yn gyhoeddus ar y llwybr canser sengl o fis Mehefin 2019, ac o fis **Chwefror 2021**, mae'r broses adrodd wedi bod yn digwydd yn erbyn y llwybr sengl yn unig (**bellach o dan enw ffurfiol y llwybr lle ceir amheuaeth o ganser**). Nid yw'r mesurau blaenorol yn cael eu hadrodd mwyach.

Mae'r llwybr lle ceir amheuaeth o ganser yn mesur amser aros y claf sy'n dechrau o'r adeg lle ceir amheuaeth o ganser yn hytrach na'r pwynt diagnosis. Llwybr ar gyfer pob claf canser ydyw, p'un a yw'n cael ei atgyfeirio gan y meddyg teulu neu'n dod ei adnabod drwy gyflwyniad brys, canfyddiad ar hapl, sgrinio neu yn ystod apwyntiad mewn gofal eilaidd.

Wrth i'r llwybr lle ceir amheuaeth o ganser ddechrau'r cloc amser aros yn gynharach, ei nod yw mesur profiad y claf yn fwy cywir. Mae Llywodraeth Cymru yn **disgwyl** gweld ffigurau canrannol is ar y llwybr newydd, ond 'mae'n bwysig nodi nad yw hyn yn golygu bod pobl yn gorfod aros yn hirach'.

## Ystadegau canser

- Mae **adroddiadau perfformiad a gweithgaredd misol** Llywodraeth Cymru yn cynnwys gwybodaeth am amseroedd aros canser. Mae'r data hyn hefyd ar gael yn y **dangosfwrdd o grynodeb perfformiad a gweithgaredd y GIG**. Adroddir ar ddata a dadansoddiadau cyd-destunol ychwanegol ar y llwybr lle ceir amheuaeth o ganser drwy **ddangosfwrdd rhyngweithiol**.
- Mae data misol ar y llwybr lle ceir amheuaeth o ganser hefyd ar gael ar wefan **StatsCymru**. Mae hyn yn cynnwys data fesul bwrdd iechyd a safle tiwmor.
- **Uned Deallusrwydd a Gwyliadwraeth Canser Cymru** yw Cofrestrfa Ganser Genedlaethol Cymru a'i phrif rôl yw cofnodi, storio ac adrodd ar bob achos o ganser ar gyfer poblogaeth breswyl Cymru lle bynnag y cânt eu trin. Mae rhagor o wybodaeth, ynghyd â data ychwanegol, ar gael ar ei **gwefan**.
- Mae rhagor o wybodaeth gefndirol ar gael hefyd yng nghyhoeddiad Llywodraeth Cymru: **Adroddiad Ansawdd Amser Aros Canser GIG Cymru** ac yng **Nghylchlythyr Iechyd Cymru WHC (2019) 028: Rheolau Cyfunol ar gyfer Rheoli Amseroedd Aros Canser**.

# 6. Amseroedd ymateb ambiwlansys

Y **categorïau galwadau** a thargedau ar gyfer amseroedd ymateb ambiwlansys yw:

**Coch**: Lle mae bywyd yn y fantol (mae rhywun mewn perygl o farwolaeth yn gyflym, fel ataliad ar y galon). Mae targed i Gymru gyfan bod rhaid ymateb i 65 y cant o'r galwadau hyn o fewn 8 munud.

**Oren**: Difrifol, ond nid yw bywyd yn y fantol (cleifion a fydd yn aml angen triniaeth i'w darparu yn y fan a'r lle, ac efallai y bydd angen mynd â nhw i'r ysbyty). Bydd y galwadau hyn yn cynnwys y rhan fwyaf o achosion meddygol a thrawma, fel poenau cardiaidd yn y frest, strôc neu dorri asgwrn. Nid oes targed amser ar gyfer galwadau oren.

**Gwyrdd**: Dim brys (yn aml gllir eu rheoli gan wasanaethau iechyd eraill ac asesiad clinigol dros y ffôn). Bydd y rhain yn cynnwys llewygu (wedi dadebru ac yn effro), mân anafiadau neu bigyn clust. Nid oes targed amser swyddogol ar gyfer y galwadau hyn.

- Mae **adroddiadau perfformiad a gweithgaredd misol** Llywodraeth Cymru yn cynnwys gwybodaeth am amseroedd ymateb ambiwlansys. Mae'r data hyn hefyd ar gael yn y **dangosfwrdd o grynodeb perfformiad a gweithgaredd y GIG**.
- Mae tablau sy'n cynnwys mwy o fanylion am wasanaethau ambiwlans brys, gan gynnwys perfformiad 'coch' fesul munud, ar gael ar **StatsCymru**. Cyhoeddir ystod ehangach o Ddangosyddion Ansawdd y Gwasanaeth Ambiwlans hefyd gan **StatsCymru** a **Phwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys** Gig Cymru.
- Mae rhagor o wybodaeth gefndirol i'w chael yng nghyhoeddiad Llywodraeth Cymru: **Adroddiad Ansawdd Gwasanaethau Ambiwlans yng Nghymru**.

# 7. Oedi wrth drosglwyddo gofal

Defnyddir y term 'oedi wrth drosglwyddo gofal' pan fydd cleifion mewnol yn yr ysbyty sy'n barod i symud ymlaen i leoliad gofal mwy priodol yn cael eu hatal rhag gwneud hynny am un neu fwy o resymau.

Ar ddechrau pandemig COVID-19 ym mis Mawrth 2020, cafodd **gofynion adrodd o ran oedi wrth drosglwyddo gofal eu hatal dros dro** gan Lywodraeth Cymru, ynghyd â setiau data eraill. Cyflwynodd Llywodraeth Cymru **Ofynion Rhyddhau COVID-19** dros dro, a oedd yn cynnwys proses ryddhau newydd gyda mwy o ffocws ar adsefydlu ac ailalluogi. O dan y gofynion hyn, mae diweddariadau wythnosol byr wedi'u cyflwyno i Lywodraeth Cymru, fel y gellid deall a mynd i'r afael â rhwystrau hag gweithredu. Nid yw'r data hyn wedi'u defnyddio at ddibenion rheoli perfformiad.

Nid yw'r data wythnosol hyn yn mesur achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal yn yr un modd â'r data a gasglwyd yn flaenorol, nid ydynt wedi'u hasesu yn erbyn safonau'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau, ac nid ydynt wedi'u cyhoeddi. Mae Llywodraeth Cymru wedi **datgan y bydd** opsiynau ar gyfer casglu a chyhoeddi data a mesurau perfformiad yn y dyfodol yn cael eu datblygu, ond mae gwaith yn y maes hwn wedi'i ohirio oherwydd blaenoriaethau eraill yn ymwneud â pandemig COVID-19.

- Mae **adroddiadau perfformiad a gweithgaredd misol** Llywodraeth Cymru yn cynnwys gwybodaeth am oedi wrth drosglwyddo gofal **hyd at fis Chwefror 2020**. Mae'r data hyd at fis Mawrth 2020 ar gael yn y **dangosfwrdd o grynodeb perfformiad a gweithgaredd y GIG**.
- Mae data misol manylach ar oedi wrth drosglwyddo gofal hyd at Fis Chwefror 2020 hefyd ar gael ar wefan **StatsCymru**. Mae hyn yn cynnwys dadansoddiad o ddata fesul bwrdd iechyd ac awdurdod lleol.
- Mae rhagor o wybodaeth gefndirol am oedi wrth drosglwyddo gofal hyd at fis Chwefror 2020 ar gael yng nghyhoeddiad Llywodraeth Cymru: **Oedi wrth drosglwyddo gofal: adroddiad ansawdd**.